# Sut i gynnal casgliad

tenovus cancer care gofal canser

Mae cynnal casgliadau ar y stryd neu mewn archfarchnadoedd yn ffordd hwylus a chyffrous i gymryd rhan, ac i helpu i godi arian ac ymwybyddiaeth.

Gobeithiwn y bydd y canllaw yma'n cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i allu trefnu eich casgliad yn ddiogel, a chael hwyl yr un pryd.

Rhowch wybod i ni os ydych chi'n bwriadu cynnal casgliad ar ein rhan ni. Mae gennym ddeunyddiau ardderchog i'ch helpu i sefyll allan, gan gynnwys bwcedi, baneri, crysau-t a balŵns wedi'u brandio!!

Os bod angen unrhyw beth arnoch, rydyn ni yma i'ch helpu:
**fundraising@tenovuscancercare.org.uk**
**029 2076 8863**

## Ein cynghorion defnyddiol!

- Anogwch pawb i ymuno; ffrindiau, teulu a chydweithwyr. Mae 'na le i bawb! Falle gallwch creu amserlen o'ch casglwyr.
- Defnyddiwch deunydd sy'n dangos brand Gofal Canser Tenovus, er mwyn sefyll allan a dangos i bawb pa elusen rydych chi'n cefnogi! Bydd brandio hefyd yn helpu codi ymwybyddiaeth am yr elusen.
- Rhaid i bob bwced neu dun casglu arian gael ei selio a'i lofnodi â sêl diogelwch arbennig. Danfonwn ni rhain atoch ynghyd â'ch bwcedi/tuniau.
- Byddwch yn gyfeillgar ac yn frwd. Gwenwch a dweud "helo" neu "bore da" i bawb.
- Sicrhewch eich bod yn ddweud diolch i bawb sy'n cyfrannu arian, dim ots o'r cyfanswm.
- Mae'n bosib y bydd pobl yn gofyn cwestiynau am yr elusen, felly byddwch yn barod gyda ffeithiau allweddol ar sut mae Gofal Canser Tenovus yn cynorthwyo pobl effeithir gan ganser.
- Peidiwch ysgwyd yr arian! Mae pawb yn hoffi swn arian yn tincial, ond ni chaniateir ysgwyd bwcedi na thuniau arian. Plîs peidiwch â gwneud hynny ac osgowch unrhyw beth a allai wneud i bobl deimlo'n anghyfforddus neu dan bwysau i gyfrannu.
- Peidiwch rhoi eich hun mewn perygl. Os yw rhywun yn ceisio cymryd bwced neu dun, gadewch iddyn nhw ei gymryd. Ond plîs rhowch wybod i ni fel y medrwn hysbysu'r heddlu.
- Byddwch yn greadigol - os ydych chi'n cynnal casgliad ar adegau penodol yn ystod y flwyddyn, byddwch yn greadigol gyda gwisgoedd neu gerddoriaeth i dynnu sylw! Nodwch falle bydd angen caniatâd arnoch chi i chwarae cerddoriaeth.
- Pan yn trefnu unrhyw ddigwyddiad codi arian, plîs ystyriwch bwysigrwydd cynnal asesiad risg ac unrhyw yswiriant all fod ei angen arnoch. Cysylltwch â'n Tîm Codi Arian am gyngor a chefnogaeth.

**Rhagor o wybodaeth**



## Trwyddedau a chaniatâd

### Casgliadau ar y stryd

Bydd angen trwydded gan yr awdurdod lleol arnoch chi er mwyn casglu mewn mannau cyhoeddus fel strydoedd. Ymwelwch â **www.gov.uk/street-collection-licence** i gael gwybod mwy a gwneud cais.

Gall trwyddedau gymryd misoedd i'w cadarnhau, felly paratowch ymlaen llaw a chaniatáu digon o amser.

Wrth wneud cais, gwiriwch faint o gasglwyr sy'n cael cymryd rhan, ynghyd ag unrhyw gyfyngiadau oedran.

Gall delerau ac amodau eich awdurdod lleol ofyn am asesiadau risg neu ffurflenni sy'n nodi faint o arian a godwyd, felly sicrhewch i'w ddarllen a'u ddilyn yn ofalus.

### Casgliadau preifat

Ar gyfer safleoedd preifat (busnesau, canolfannau siopa, archfarchnadoedd, ayyb), bydd angen caniatâd ysgrifenedig ganddynt. Gallwch gael hyn gan berchennog y safle, rheolwr, neu bencampwr elusen y safle.

Rhaid cydymffurfio â thelerau ac amodau'r safle. Gall hyn gynnwys mewngofnodi ac allgofnodi, sefyll mewn man penodol, ac ati.

Cofiwch i ddiolch i'r safle ar ôl eich casgliad. Rhowch wybod iddynt faint o arian a godwyd yn ystod y digwyddiad, byddan nhw'n hapus i glywed sut roeddent wedi cefnogi!

Am ragor o wybodaeth a chyngor ar sut i gadw'ch casgliad yn ddiogel a chyfreithlon, ewch i **fundraisingregulator.org.uk**

## Ar ôl y casgliad

- Pan rydych chi'n cludo'r arian, gwnewch yn siŵr bod rhywun arall yn mynd gyda chi. Dewiswch lwybrau diogel, gyda digon o oleuni er mwyn lleihau'r risg.
- Gwnewch yn siŵr bod arian yn cael ei gadw mewn man diogel - peidiwch â'i adael mewn car dros nos.
- Ceisiwch gyfri'r arian rydych chi wedi'i godi mewn man diogel sydd ddim yn agored. Lle bo'n bosib, gwnewch yn siŵr fod yr arian yn cael ei gyfri a'i gofnodi gan ddau berson.
- Does dim ots faint o arian a godwyd, mae pob ceiniog yn bwysig! Mae sawl ffordd i'w dalu mewn:

**Drwy'r post -** anfonwch siec yn daliadwy i Tenovus Cancer Care, at:
Gofal Canser Tenovus, Llawr Cyntaf, Cwrt Jones, Stryd Womanby, Caerdydd CF10 1BR

**Dros y ffôn -** ffoniwch 029 2076 8850 i dalu gyda cherdyn dros y ffôn.

**Ar-lein -** talwch drwy ein wefan ar tenovuscancercare.org.uk/donate

*Diolch yn fawr*

am helpu ni i gynorthwyo pobl a'u hanwyliaid i fyw'n well â chanser.

**Pob lwc a mwynhewch!**



Yn codi arian ar gyfer Gofal Canser Tenovus
Elusen Gofrestredig Rhif 1054015

Cofrestrwyd gyda'r
FUNDRAISING REGULATOR
RHEOLEIDDIWR CODI ARIAN

tenovus cancer care gofal canser

tenovuscancercare.org.uk